Petaech chi'n cael cyfle i gyfarfod yr unigolyn sydd wedi torri i mewn i'ch cartref neu wedi'ch mygio, beth fyddech chi'n ei ddweud wrtho?

Dychmygwch eich bod yn gallu gofyn y cwestiynau pwysig hyn a chlywed beth sydd ganddo i'w ddweud drosto'i hun.

Mae llawer o ddioddefwyr troseddau wedi dewis cyfarfod y troseddwr drwy broses o'r enw Cyfiawnder Adferol (RJ).

> "I mi, mae cyfiawnder adferol wedi troi'r fantol a dydw i ddim yn teimlo fel dioddefwr mwyach. Fi sydd mewn rheolaeth nawr."

Merch dioddefwr llofruddiaeth

Mae RJ yn rhoi cyfle i ddioddefwyr esbonio i droseddwyr beth yw effaith wirioneddol eu trosedd, i gael atebion i'w cwestiynau, ac weithiau i gael ymddiheuriad. Mae'n rhoi llais i ddioddefwyr a'r cyfle i chwarae rhan yn atal neb arall rhag dioddef trosedd. Gall hefyd gywiro'r niwed a bod yn gymorth i'r dioddefwr symud ymlaen.

Mae RJ hefyd yn darparu ffordd i droseddwyr wynebu eu camau, deall yr effeithiau dinistriol y mae eu troseddau wedi'u cael ar y dioddefwyr a'u teuluoedd, a phan bo modd, i gymodi. Fel hyn, mae RJ yn gallu bod yn gymorth i atal troseddwyr rhag troseddu eto.

> "Cyfiawnder adferol oedd y trobwynt i mi. Pan sylweddolais pa effaith oedd fy nhroseddau'n eu cael ar bobl eraill, roedd gen i gywilydd."

Cyn-fyrgler

Mae RJ yn wirfoddol i'r dioddefwr a'r troseddwr a dim ond yn digwydd os bydd hwylusydd hyfforddedig RJ yn penderfynu y bydd hynny'n ddiogel ac yn addas. Mae ffyrdd gwahanol o wneud RJ. Weithiau, mae'n iawn i'r dioddefwr a'r troseddwr gyfarfod wyneb yn wyneb, dro arall gallant gyfathrebu drwy trosglwyddo negeseuon yn ôl ac ymlaen drwy hwylusydd hyfforddedig.

Y peth pwysicaf yw ei fod yn gymorth i'r dioddefwr a'r troseddwr.

Cyn cynnal cyfarfod:

- Rhaid i'r troseddwr dderbyn cyfrifoldeb am y drosedd.
- Rhaid i'r dioddefwr a'r troseddwr fod yn barod i gymryd rhan.
- Rhaid i hwylusydd RJ benderfynu a yw'n ddiogel i'r dioddefwr a'r troseddwr fod yn rhan o'r broses.

Bydd hwylusydd hyfforddedig yn paratoi’r dioddefwr a’r troseddwr cyn y cyfarfod, ac yn ystod y cyfarfod bydd yn arwain y rhai sy’n cymryd rhan i gael sgwrs am y drosedd a’i heffeithiau. Bydd yr hwylusydd yn gwneud yn siŵr fod y dioddefwr a’r troseddwr yn cael cyfle i siarad a bod y dioddefwr yn gyfforddus drwy gydol y cyfarfod.

Ymunwch â’r drafodaeth

#CyfiawnderAdferol




# Cyfiawnder Adferol

Dychmygwch eich bod yn gallu siarad gyda’r unigolyn a droseddodd yn eich erbyn.

Dychmygwch eich bod yn gallu dweud wrtho pa effaith gafodd y drosedd arnoch chi, eich bywyd a’ch teulu.